# YR ATODLEN

## DIWYGIO CYNLLUN PENSIWN Y DYNION TÂN (CYMRU)

**22.**—(1) Yn Atodlen 8 (prynu buddion uwch), yn Rhan 1 (taliadau)—

(a) ym mharagraff 1(1), hepgorer "subject to sub-paragraph (2)(c)," ac yn lle "normal pension age" rhodder "role";

(b) ym mharagraff 1(2)(b), yn lle "represents; and" rhodder "represents.";

(c) hepgorer paragraff 1(2)(c);

(d) ym mharagraff 3(1), hepgorer "subject to sub-paragraph (2)(c)," ac yn lle "normal pension age" rhodder "role";

(e) ym mharagraff 3(2)(b), yn lle "disentitlement; and" rhodder "disentitlement.";

(f) hepgorer paragraff 3(2)(c); ac

(g) ym mharagraffau 2 a 4, yn lle "Government Actuary" rhodder "Scheme Actuary".

(2) Yn Rhan 2 (cyfrifo'r swm priodol), ym mharagraff 3, yn lle "Government Actuary" rhodder "Scheme Actuary".